Cyngor Sir Ceredigion **Gofal Cymdeithasol**

# Gwybodaeth amdanoch chi

**…yn gofalu i wneud gwahaniaeth**

# Print Bras neu fformatau eraill ar gael drwy ofyn amdanynt ffoniwch

01545 574000

**neu e-bost**
**cystwllt-socservs@ceredigion.gov.uk**

**Oriau Swyddfa'r Porth Gofal:**

| | |
|---|---|
| **Dydd Llun - Iau :** | **8.45 y.b. – 5.00 y.p.** |
| **Dydd Gwener:** | **8.45 y.b. – 4.30 y.p.** |

Gellir gweld gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau a ddarparir gan Gyngor Sir Ceredigion ar ein gwefan
**www.ceredigion.gov.uk**

Adolygwyd Rhagfyr 2019

# Gwybodaeth amdanoch chi

## Sut mae cael gweld ffeiliau'r Gofal Cymdeithasol

Os ydych chi erioed wedi cael help neu gyngor gan y Gofal Cymdeithasol bydd gwybodaeth amdanoch yn ein ffeiliau sydd wedi ein helpu ni i gyflawni eich anghenion neilltuol chi. Mae'r daflen hon yn sôn am y ffordd yr ydym yn rheoli eich gwybodaeth a'ch hawliau o ran y wybodaeth honno.

## Pam ydym yn cadw gwybodaeth amdanoch?

Fel meddygon, ysbytai a sefydliadau eraill tebyg, rydym yn cadw manylion y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Gwnawn ni hyn er mwyn medru deall eich sefyllfa bersonol, rhoi help priodol pan fo angen, a chadw golwg ar y gwaith yr ydym yn ei wneud gyda chi. Mae'n ein helpu ni i gynllunio gwasanaethau at y dyfodol, a sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n ateb anghenion pawb. Mae'n ofynnol inni hefyd baratoi ystadegau a rhoi gwybodaeth i sefydliadau eraill y Llywodraeth. Mae'r wybodaeth a ddefnyddir at y diben hwn yn ddienw.

Defnyddiwn eich manylion hefyd os bydd angen inni ymchwilio cwyn am safon y gwasanaethau yr ydych yn eu cael.

## Pwy sy'n cofnodi'r manylion?

Os bydd un o staff y Gofal Cymdeithasol yn rhoi gwasanaeth i chi, bydd yn cofnodi manylion sylfaenol amdanoch ar y cyfrifiadur ac ar ffeil bapur hefyd. Bydd hyn yn digwydd hyd yn oed os yw'r aelod o'r staff mewn asiantaeth arall megis y Gwasanaeth Iechyd.

## Beth a gedwir?

Cadwn amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig (ffeiliau papur) a gwybodaeth ar gyfrifiaduron (ffeiliau electronig).

Mae hyn yn cynnwys:

- eich enw a'ch cyfeiriad
- eich dyddiad geni
- eich tras ethnig a'ch crefydd
- gwybodaeth ynglyn a'r y gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn neu wedi eu derbyn oddi wrthym ac adolygiadau diweddarach or gwasanaethau hynny; a
- gwybodaeth berthnasol amdanoch chi gan berthnasau neu ofalwyr, a gweithwyr proffesiynol eraill (er enghraifft, eich meddyg)

## A yw'n gyfrinachol?

Mae cadw cofnod yn rhan o'n gwaith beunyddiol, ac rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif.

Parchwn y ffaith fod llawer o'r wybodaeth a roddwch amdanoch chi eich hunan yn bersonol ac yn breifat, ac mae cyfrifoldeb ar yr holl staff i sicrhau y caiff ei chadw'n ddiogel ac na fydd neb yn ei gweld onid oes ganddo ef/ganddi hi hawl i'w gweld.

Efallai y bydd angen inni rannu gwybodaeth gyda phobl eraill megis:

- staff y gofal cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau arbenigol
- cydweithwyr yn y maes iechyd, sy'n darparu gwasanaethau ar y cyd
- asiantaethau eraill (preifat neu wirfoddol) sy'ni darparu gwasanaethau i chi

- gweithwyr proffesiynol eraill, os oes rhywun mewn perygl o gael ei niweidio
- Y Comisiwn Archwilio (o dan y fenter Twyll Cenedlaethol – yn benodol ar gyfer canfod ac atal twyll)

Byddwn yn gofyn am eich caniatâd cyn rhannu eich gwybodaeth, os bydd hyn yn ymarferol. Byddwn yn gwneud hyn fel arfer pan fyddwn yn casglu’r wybodaeth. Ni fyddwn ond yn rhannu’r wybodaeth hon gyda’r sefydliad os bydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith. Ni fyddwn yn trosglwyddo mwy o wybodaeth na fydd ei angen. Os na chawn eich caniatâd, ni fyddwn ond yn rhannu eich gwybodaeth os bydd y gyfraith yn dweud y dylem ni wneud hynny. Gallai hyn fod i warchod eich buddiannau hanfodol, i atal rhywun arall rhag bod mewn perygl, neu i ganfod neu atal twyll. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am blant (nid yw hyn yn cynnwys enw’r plentyn) oddiwrth y Cynghorau bob blwyddyn. Yr enw a roddir ar hyn yw Cyfrifiad Plant Mewn Angen Cymru.

Bydd y wybodaeth y mae gofyn inni ei hanfon yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ond bydd yn cynnwys nodweddion personol a manylion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Ni fydd enw’r plentyn yn cael ei gynnwys ar y ffurflen, ond os bydd gan y plentyn rif disgybl unigryw, caiff hwnnw ei gynnwys. Mae’r Rhif Disgybl Unigryw yn caniatâu i Lywodraeth Cymru baru gwybodaeth gofal ac addysg pob plentyn. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio enw’r plentyn yn yr ymarfer hwn nac ychwaith yn cymryd unrhyw gamau o ran plant unigol nac yn eu henwi mewn adroddiadau.

Gallwch ofyn i Lywodraeth Cymru am restr o’r eitemau data yng Nghyfrifiad Plant Mewn Angen Cymru:

Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd, Llywodraeth Cymru.

☎ **(029) 2082 3625**



**(029) 2082 5350**

stats.pss@wales.gsi.gov.uk

## A allwch chi gael Gwasanaeth heb gofnodi gwybodaeth?

Na allwch, mae gennym bolisi o gadw cofnod o bawb sy’n defnyddio ein Gwasanaethau.

## Beth gewch chi ei weld?

Mae gennych hawl i weld gwybodaeth bersonol sydd amdanoch chi eich hunan, ond fel rheol ni chewch chi weld dim byd am neb arall – hyd yn oed aelodau eraill y teulu – heb ganiatâd. Mae cyfrifoldeb arnom hefyd i’r bobl a roddodd yr wybodaeth inni gan gredu ei bod yn gyfrinachol (yr enghraifft amlycaf yw eich meddyg teulu). Mae’n rhaid inni ofyn am eu caniatâd i ddatgelu’r wybodaeth a roesant ac weithiau gallant wrthod am eu bod yn credu na fyddai’n fanteisiol i chi ddarllen rhyw wybodaeth neu’i gilydd. Nid ar chwarae bach y byddwn yn penderfynu gwrthod rhoddi gwybodaeth ac ni all neb ond un o Uwch Reolwyr y Gofal Cymdeithasol wneud hynny yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Os oes yna wybodaeth na allwn ei rhoi i chi, byddwn yn esbonio’r rhesymau a bydd gennych hawl apelio.

## Pa mor hir yr ydym yn cadw’r wybodaeth?

Mae hyn yn dibynnu ar natur y wybodaeth. Er enghraifft, rydym yn cadw rhai cofnodion am 6-10 mlynedd, ac eraill am 25 mlynedd, Caiff confodion plant mewn gofal eu cadw am 75 mlynedd. Mae gennych hawl (ond bydd rhai eithriadau) i weld unrhyw wybodaeth yr ydym dal yn ei chadw amdanoch, beth bynnag yw oedran y wybodaeth honno.

## Sut allaf ei gweld?

Mae dau gam cyn y gallwch weld yr wybodaeth a gadwn amdanoch. Fel cam cyntaf byddwn ni'n nodi'r wybodaeth sydd gennym (os oes peth o gwbl). Yn yr ail gam trefnwn i chi gael gweld yr hyn y mae gennych hawl i'w weld. Os credwch fod gennym wybodaeth amdanoch ac yr hoffech ei gweld, ysgrifennwch neu e-bostiwch:

Porth Gofal
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE





**cyswllt-socservs@ceredigion.gov.uk**

## Beth fydd ei angen arnom ni gennych chi?

Ar hyn o bryd bydd angen:

- eich enw llawn
- eich cyfeiriad cyfredol
- eich dyddiad geni
- y cyfeiriad yr oeddech yn byw ynddo pan gawsoch chi'r gwasanaeth gennym (os yw'n wahanol i'ch cyfeiriad cyfredol) ac
- esboniad byr o ba fanylion yr ydych chi'n credu eu bod gennym

## Beth fydd yn digwydd nesa'?

Pan fyddwch chi'n dweud wrthym eich bod chi am weld ein ffeiliau, byddwn yn ateb o fewn 20 o ddiwrnodau gwaith i roi gwybod i chi a oes gennym unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch, neu os bydd yn rhaid inni wrthod i chi weld y ffeiliau am ryw reswm eithriadol. Os byddwn yn gwrthod byddwn yn esbonio pam.

Os oes gennym yr wybodaeth amdanoch, yn ôl y gyfraith mae'n rhaid inni sicrhau y cesglir eich holl fanylion ynghyd a chael pob caniatâd angenrheidiol gan bawb o fewn 40 o ddiwrnodau i'r dyddiad y gwnaethoch y cais. Efallai y bydd oedi cyn darganfod yr wybodaeth a bydd modd rhoi cyfrif am hyn. Yna gallwn drefnu dyddiad ac amser i chi weld eich ffeil.

## 1. Plant a Phobl Ifanc

Caiff plentyn neu rywun ifanc dan 18 oed weld ei ffeil, ar yr amod ei fod/ei bod yn deall pwrpas hynny a'r canlyniadau tebyg. Caiff rhywun sydd â chyfrifoldeb rhiant wneud cais ar ran plentyn neu rywun ifanc i gael gweld ei ffeil, ond byddai'n rhaid inni fod yn fodlon ar nifer o bethau, yn enwedig o ran a fyddai hynny er lles y plentyn neu'r person ifanc.

## 2. Mabwysiadu

Caiff rhywun sy'n ymwneud â mabwysiadu plentyn ofyn am gael gweld eu ffeiliau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys y plentyn, y rhieni naturiol, y rhieni sy'n mabwysiadu ac oedolion a gafodd eu mabwysiadu'n blant. Bydd hawl i weld gwybodaeth yn ôl ein disgresiwn ninnau ar bob adeg yn achos mabwysiadu.

## 3. Os byddwch yn anghytuno â’r hyn sydd ar ffeil

Os credwch fod unrhyw wybodaeth ffeithiol anghywir ar ffeil esboniwch wrthym gan ddweud pam y credwch fod unrhyw wybodaeth yn anghywir neu’n gamarweiniol a’r hyn y gellid ei wneud i’w unioni. Efallai y credwch y dylid cywiro’r wybodaeth neu’i dileu, neu efallai yr hoffech wneud datganiad i roi’r wybodaeth gywir inni. Efallai na fyddwn yn cytuno bod yr wybodaeth sydd ar ffeil yn anghywir. Os felly ni newidiwn ni ddim, ond cedwir nodyn o’ch barn chi ar y ffeil. Cewch weld y ffeil yn ddi-dâl eto er mwyn gweld pa newidiadau neu ychwanegiadau sydd wedi eu gwneud. Efallai ni fyddwn yn cytuno bod yr wybodaeth sydd ar ffeil yn anghywir. Os felly ni newidiwn ni ddim, ond cedwir nodyn o’ch barn chi ar y ffeil. Cewch weld y ffeil yn ddi-dâl eto er mwyn gweld pa newidiadau neu ychwanegiadau sydd wedi eu gwneud.

## Beth sy’n digwydd os na chaf weld fy ffeil bersonol?

Os dywedir wrthych na chewch chi weld eich ffeil bersonol, mae gennych hawl apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Yn y lle cyntaf dylech danfon eich apêl at Gyfarwyddwr Corfforaethol,Gofal Cymdeithasol, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA.

Os byddwch yn dal yn anfodlon cewch gwyno wrth Swyddog Cwynion Gofal Cymdeithasol.

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn llwyr gefnogi egwyddor cydraddoldeb ac mae’n cydnabod pwysigrwydd cynnig cyfleoedd manteisio teg ac mae’n hyrwyddo cyfle cyfartal i’r holl ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth.**

## Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth ar gael a lle bo hynny’n bosib, byddwn yn trefnu i rywun eich cynorthwyo i gyflwyno eich barn wrth i chi ymdrin â ni os nad yw’n bosib i chi wneud hynny eich hun ac os nad oes gennych deulu neu ffrindiau i’ch helpu.

**Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Ceredigion (CIPA)**
Gall y gwasanaeth hwn eich cynorthwyo chi (neu eich gofalwr) os ydych chi dros 18 oed, yn byw yng Ngheredigion a’ch bod yn derbyn asesiad neu adolygiad ar hyn o bryd o’ch anghenion gofal a chymorth neu fod gennych bryder o ran diogelu.

**0800 206 1387**

Bydd **Eiriolaeth Gorllewin Cymru’n** darparu Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer pobl yn y gymuned ac ar gyfer cleifion anffurfiol yn Ward Morlais, Ysbyty Glangwilli, Caerfyrddin.

**01437 762935**

www.advocacywestwales.org.uk

admin@advocacywestwales.org.uk

Mae **TGP Cymru** yn darparu help i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau y caiff eu hawliau eu parchu a’u lleisiau eu clywed. Gallant ddarparu gwybodaeth, eiriolaeth, cynrychiolaeth, cyngor a chefnogaeth.

**0808 1682599**

**01545 571865**

midandwestwales@tgpcymru.org.uk

## Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

Bydd unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn cael ei chadw’n gyfrinachol. Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth i unrhyw un nad ydynt yn ymwneud â’ch gofal heb eich caniatâd (oni bai bod yn rhaid i ni wneud hynny yn unol â’r gyfraith neu os ceir amgylchiadau arbennig, fel eich diogelwch a/neu ddiogelwch eraill).

## Argyfyngau

Os bydd angen help arnoch ar frys y tu allan i oriau agor y Porth Gofal (fel y nodwyd tu fewn clawr y daflen hon), cysylltwch â’n Tîm Argyfwng Tu Allan i Oriau Swyddfa ar:

**0300 4563554**

## Cyflwyniadau/Cwynion/Sylwadau

Os nad ydych yn fodlon ag unrhyw rai o’n gwasanaethau, neu â’r ffordd yr ydych wedi cael eich trin, dylech drafod hyn gyda Rheolwr y Tîm y mae gennych gyswllt ag ef yn gyntaf. Mawr obeithiwn y bydd modd datrys y broblem ar yr adeg hon.

Os nad ydych yn fodlon o hyd fodd bynnag, gallwch fynd â’r mater hwn ymhellach trwy wneud cwyn ffurfiol, gan bod gan Gofal Cymdeithasol Ceredigion weithdrefn gwyno.

Os ydych yn credu ein bod wedi gwneud rhywbeth yn dda, gallwch ddweud hynny wrthym hefyd.

Gofynnwch i’r **Gofal Cymdeithasol** am daflen ‘A ydym yn llygad ein lle? A oes gennych unrhyw Sylwadau, Cwynion neu Ganmoliaeth?’

Mae taflenni eraill yn rhoi manylion am y gwahanol wasanaethau a gynigir gan Gofal Cymdeithasol Ceredigion ar gael drwy ofyn amdanynt o’r Porth Gofal. Os ydych am ragor o wybodaeth, ffoniwch ar:

**01545 574000**

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch cynnwys a chynllun y daflen hon, yn ogystal â'r gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn. Mae'ch safbwyntiau chi yn bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn gallu monitro a gwella'r ansawdd yn ôl yr angen. A fyddech gystal â mynd ati i lenwi'r canlynol:

Enw: ……………………………………………………………………….

Cyfeiriad: ………………………………………………………………….

………………………………………………………………………………...

………………………………………………………………………………...

Rhif Ffôn: ……………………………… Dyddiad: ………………………

Cafwyd taflen gan: ………………………………………………….……

Fy nghanmoliaeth neu fy nghwyn:

………………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………………..

(A fyddech gystal â pharhau ar dudalen ar wahân os bydd angen mwy o le arnoch)



Dylech anfon y dudalen hon at:

Porth Gofal
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE

**Diolch am eich sylwadau**